Y Bwrdd Taliadau
**Papur Tystiolaeth**

# Gwariant o’r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn y 6ed Senedd

Gorffennaf 2024

Mae’r papur hwn yn rhoi crynodeb o wariant o’r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn ystod y Chweched Senedd. Mae'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer adolygiad thematig y Bwrdd Taliadau Annibynnol ynghylch Ffyrdd o Weithio. Bydd yr adolygiad thematig hwn yn llywio penderfyniadau'r Bwrdd ynghylch Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad....3**

Dull Dadansoddi a Chyfyngiadau....3

**2. Dadansoddiad: Gwariant o'r Gronfa....5**

Gwariant Cyffredinol o'r Gronfa....5

Uchafswm Gwariant, Isafswm Gwariant a Gwariant Cyfartalog gan Aelodau....5

Rhent....10

Costau Rhent: Holl Aelodau....10

Costau Rhent yn ôl Rhanbarth....11

Costau Rhent mewn ardaloedd y nodwyd bod costau uchel....11

Cyfleustodau....13

Cyfleusterau....13

Cyfathrebu ac Ymgysylltu....13

TGCh....17

Costau Cyfreithiol....17

Ymchwil....17

**3. Dadansoddiad: Gwariant Lwfans Cychwyn Swyddfa ac Adnewyddu 18**

Lwfans Cychwyn Swyddfa....18

Lwfans Adnewyddu Swyddfa....19

**4. Casgliad....20**

**5. Atodiad A: Categorïau Gwariant....22**

# 1. Cyflwyniad

Fel rhan o'i raglen adolygu thematig, mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ('y Bwrdd') yn ystyried sut y gallai fod angen i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr ('y Gronfa') newid ar gyfer y Seithfed Senedd yng ngoleuni nifer o newidiadau sylweddol, gan gynnwys ffyrdd newydd o weithio a'r rhaglen i ddiwygio'r Senedd.

Er mwyn llywio'r adolygiad hwn, cynhaliwyd dadansoddiad o wariant presennol o'r Gronfa i ddeall sut y gallai anghenion yr Aelodau fod yn newid, a nodi unrhyw feysydd y gallai fod angen gweithredu arnynt i sicrhau bod Aelodau'n cael eu cefnogi'n effeithiol i gyflawni eu dyletswyddau mewn Senedd ddiwygiedig. Mae'r papur hwn yn cyflwyno crynodeb o'r dadansoddiad hwn.

Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar ddata ar wariant yr Aelodau, a ddarparwyd gan y Comisiwn, sydd hefyd yn cael ei gyhoeddi'n rheolaidd ar wefan y Senedd. Mae data wedi'u darparu ar gyfer tair blynedd ariannol lawn y Chweched Senedd sef, 2021-22, 2022-23 a 2023-24.

## Dull Dadansoddi a Chyfyngiadau

Mae gwariant wedi'i grwpio mewn nifer o gategorïau i gynorthwyo'r gwaith dadansoddi. Dyma hwy:

- Rhent
- Cyfleusterau
- TGCh
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Costau Cyfreithiol
- Ymchwil
- Cyfleustodau
- Diogelwch
- Staffio/AD

Mae rhestr fanwl o sut mae llinellau gwariant wedi'u trefnu i'r categorïau hyn wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

Mae rhai cyfyngiadau i'r dull hwn y dylid eu cadw mewn cof wrth adolygu'r canfyddiadau:

- Mae grwpio eitemau mewn categorïau wedi'i wneud i ryw raddau yn seiliedig ar farn. Nid yw disgrifiadau gwariant yn y data ffynhonnell bob amser yn gweddu'n daclus i un categori. Er enghraifft, mae peth gwariant llungopïo a phostio yn amlwg at ddibenion cyfathrebu ac ymgysylltu, tra byddai rhywfaint yn cyfrif fel costau swyddfa cyffredinol. Mae'r categori gwariant felly wedi'i seilio ar y disgrifiad a ddarparwyd yn erbyn llinellau gwariant unigol yn y data ffynhonnell a barn ysgrifenyddiaeth y Bwrdd.

- Mae blwyddyn gyntaf tymor Senedd yn annhebygol o fod yn gynrychioliadol o flwyddyn 'arferol' o ystyried bod Aelodau newydd yn sefydlu swyddfeydd. At hynny, roedd rhai cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 ar waith o hyd yn 2021-22 ac mae pryderon am y feirws yn debygol o fod wedi effeithio ar ffyrdd o weithio. Oherwydd hynny, dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r data presennol i nodi unrhyw dueddiadau hirdymor.

- Roedd y data ffynhonnell yn cynnwys gwariant ar gostau nad ydynt yn ymwneud â staffio gan arweinwyr grwpiau plaid. Mae'r rhain wedi'u gwahanu ar gyfer y prif ddadansoddiad, gan fod hwn yn cael ei ariannu drwy'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol yn hytrach na'r Gronfa. Mae rhywfaint o waith dadansoddi penodol ynghylch arweinwyr grwpiau wedi'i gynnwys ar gyfer ymchwil, o ystyried y gallu i drosglwyddo arian i swyddfeydd grwpiau ar gyfer costau polisi ac ymchwil.

- Mae data ffynhonnell ar y lwfans cychwyn swyddfa a'r lwfans adnewyddu swyddfa wedi'u codio'n wahanol i brif wariant o'r Gronfa. Caiff disgrifiadau gwariant yn y lwfans cychwyn ac adnewyddu eu codio fel y lwfans perthnasol. Felly, mae categoreiddio wedi'i seilio ar y disgrifiad a roddir yn erbyn llinellau gwariant unigol.

O ystyried y cyfyngiadau hyn, gall y dadansoddiad a gyflwynir yn y papur hwn gynnig darlun ***dangosol*** felly o wariant o'r Gronfa ers 2021-22, a all lywio penderfyniadau gan y Bwrdd ynghylch ei digonolrwydd a sut y gallai defnydd amrywio ymhlith y 60 Aelod presennol o'r Senedd. Dylid ystyried y dadansoddiad hwn ochr yn ochr â thystiolaeth arall i gael dealltwriaeth lawnach o ddefnydd presennol o'r Gronfa ac anghenion posibl yn y dyfodol.

# 2. Dadansoddiad: Gwariant o'r Gronfa

Mae'r adran hon o'r papur yn ystyried gwariant cyffredinol o'r Gronfa a phatrymau gwariant o'r Gronfa ymhlith Aelodau, cyn edrych yn benodol ar nifer o gategorïau gwariant o fewn lwfans y Gronfa (ac eithrio'r lwfans cychwyn ac adnewyddu, a ddadansoddir yn Adran 3).

## Gwariant Cyffredinol o'r Gronfa

Yn 2021-22 gwariwyd cyfanswm o £860,975 gan Aelodau, cynyddodd hyn i £1,102,235 yn 2022-23 a £1,127,375 yn 2023-24. Mae hyn yn cynrychioli 72 y cant, 79 y cant a 73 y cant o gyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y Gronfa yn seiliedig ar bob un o'r 60 o Aelodau yn hawlio'r swm llawn sydd ar gael iddynt.[1] Yn 2023-24, gwariodd 55% o Aelodau lai na 75% o'u cyllideb OCLF a gwariodd 13% o Aelodau dros 90% o'r gyllideb OCLF sydd ar gael iddynt.

### Uchafswm Gwariant, Isafswm Gwariant a Gwariant Cyfartalog gan Aelodau[2]

Mae gwariant o'r Gronfa yn amrywio'n sylweddol fesul Aelod. Yn ôl pob golwg nid yw statws Aelod fel cynrychiolydd etholaeth neu gynrychiolydd rhanbarthol yn ffactor o bwys yn yr amrywiad hwn.

**Tabl 1: Uchafswm gwariant, isafswm gwariant, a gwariant cyfartalog o'r Gronfa**

| Yr holl Aelodau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Cyllideb OCLF[3]** | **Isafswm** | **Uchafswm** | **Cyfartaledd (Cymedr)** | **Canolrif** |
| 2021-22 | £20,060/£6,712 | £104 | £27,290 | £14,350 | £14,528 |
| 2022-23 | £23,260/£9,500 | £1,132 | £34,884 | £18,371 | £17,530 |
| 2023-24 | £25,610/£10,460 | £1,718 | £31,636 | £18,771 | £18,532 |
| **Aelodau Etholaethol** | | | | | |

[1] DS: nid yw'r cyfrifiad hwn yn ystyried unrhyw arian a drosglwyddir o'r Gronfa gan Aelodau unigol i'w swyddfa Grŵp at ddibenion gweithgaredd polisi ac ymchwil neu arian a drosglwyddir rhwng y Gronfa a'r lwfans gwariant staffio. Bydd trosglwyddiadau ariannol yn cael eu harchwilio drwy gyfweliad lled-strwythuredig gyda Chymorth Busnes i'r Aelodau.
[2] Mae'r ffigurau cymedrig a chanolrifol yn cael eu cyflwyno gan fod y cymedr yn gallu cael ei effeithio mewn amrediadau lle mae ffigurau eithafol ar un pen neu'r llall (isafswm neu uchafswm.)
[3] Mae'r ffigur OCLF is ar gael i'r Aelodau hynny sydd ond yn gwneud eu dyletswyddau etholaethol neu ranbartholi o'r cyfleusterau swyddfa yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd. Mae'r ffigur hwn yn berthnasol i un Aelod rhanbarthol.

| Blwyddyn | Cyllideb OCLF | Isafswm | Uchafswm | Cyfartaledd (Cymedr) | Canolrif |
|---|---|---|---|---|---|
| 2021-22 | £20,060/£6,712 | £2,952 | £27,290 | £14,973 | £14,779 |
| 2022-23 | £23,260/£9,500 | £9,631 | £32,110 | £18,168 | £17,268 |
| 2023-24 | £25,610/£10,460 | £8,021 | £31,636 | £18,791 | £18,727 |
| **Aelodau Rhanbarthol** | | | | | |
| **Blwyddyn** | **Cyllideb OCLF** | **Isafswm[4]** | **Uchafswm** | **Cyfartaledd (Cymedr)** | **Canolrif** |
| 2021-22 | £20,060/£6,712 | £104 | £23,033 | £13,102 | £14,398 |
| 2022-23 | £23,260/£9,500 | £1,132 | £34,884 | £18,775 | £18,149 |
| 2023-24 | £25,610/£10,460 | £1,718 | £30,700 | £18,732 | £17,359 |

Gwnaed dadansoddiad hefyd heb gynnwys gwariant yr Aelod rhanbarthol heb swyddfa, gan fod hyn yn effeithio'n sylweddol ar y ffigur cyfartalog. Heb gynnwys y gwariant hwn, y gwariant cyfartalog gan Aelodau Rhanbarthol oedd £13,787 yn 2021-22, £19,704 yn 2022-23 a £19,678 yn 2023-24.

**Tabl 2: Aelodau sy'n gwario dros 100 y cant o'r Gronfa**


| Blwyddyn | Nifer yr Aelodau | Canran yr Aelodau |
|---|---|---|
| 2021-22 | 9 | 15% |
| 2022-23 | 13 | 22% |
| 2023-24 | 8 | 13% |

**Tabl 3: Aelodau sy'n gwario 90 y cant o'r Gronfa**

| Blwyddyn | Nifer yr Aelodau | Canran yr Aelodau |
|---|---|---|
| 2021-22 | 13 | 22% |
| 2022-23 | 18 | 30% |
| 2023-24 | 11 | 18% |

[4] Dylid nodi bod yr Aelod nad yw'n gweithredu swyddfa etholaeth ar hyn o bryd yn Aelod rhanbarthol, sy'n egluro'r isafswm gwariant llawer is gan aelodau rhanbarthol a nodir yma.

### Siart 1: Cyfran y Cwantwm o'r Gronfa a wariwyd gan Aelodau




Mae cyfanswm y gwariant yn amrywio fesul rhanbarth. Mae edrych ar y gwariant blynyddol cyfunol gan Aelodau ym mhob rhanbarth yn dangos y gwariant blynyddol isaf gan Aelodau yng Ngorllewin De Cymru ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol. Gwelir bod y gwariant uchaf yng Ngogledd Cymru yn 2021-22 ac yng Nghanol De Cymru (o gryn dipyn) yn 2022-23, ac eto yn 2023-24. Mae'r data'n awgrymu bod ffactor sylweddol yn y cynnydd hwn mewn gwariant yng Nghanol De Cymru yn ymwneud â gwariant ar gyfathrebu ac ymgysylltu. Er bod pob rhanbarth wedi gweld cynnydd mewn gwariant ar gyfathrebu yn 2022-23, roedd hyn yn llawer uwch yng Nghanol De Cymru, gyda chynnydd o 104 y cant.

### Tabl 4: Gwariant blynyddol o'r Gronfa fesul rhanbarth

| Cyfanswm y Gwariant | Blwyddyn | | |
|---|---|---|---|
| **Rhanbarth** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | £155,434 | £203,915 | £248,042 |
| Gogledd Cymru | £196,067 | £217,172 | £225,779 |
| Canol De Cymru | £193,706 | £272,674 | £251,368 |
| Dwyrain De Cymru | £162,694 | £214,192 | £209,388 |
| Gorllewin De Cymru | £153,073 | £194,282 | £192,798 |

| Gwahaniaeth rhwng gwariant uchaf ac isaf fesul rhanbarth: | Gwahaniaeth rhwng gwariant uchaf a’r ail uchaf fesul rhanbarth: |
|---|---|
| ▪ 2021-22 - £42,994<br>▪ 2022-23 - £78,393<br>▪ 2023-24 - £58,570 | ▪ 2021-22 - £2,361<br>▪ 2022-23 - £55,502<br>▪ 2023-24 - £3,326 |

## Trosglwyddo arian

Gall Aelodau drosglwyddo i’w cyllideb OCLF uchafswm o 25% o’u cyllideb OCLF naill ai o’u Lwfans Staffio neu o gyllideb OCLF y flwyddyn ganlynol mewn amgylchiadau eithriadol. Ni ddarperir yr hyblygrwydd hwn i drosglwyddo arian rhwng cyllidebau i ddiwallu anghenion neu flaenoriaethau newidiol Aelodau ar gyfer aelodau Senedd yr Alban neu Senedd y DU.

Mae trosglwyddo arian wedi cael ei ddefnyddio gan nifer o Aelodau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae’n rhoi hyblygrwydd i Aelodau dalu costau annisgwyl neu ddefnyddio cyllid sydd ar gael o lwfansau eraill na fyddai fel arall wedi’u gwario, yn hytrach na nodi mater o ddigonolrwydd gyda chyllideb OCLF. Yn 2023-24:

trosglwyddodd pedwar Aelod gyfartaledd o £1,399 o'r flwyddyn ariannol nesaf i dalu am gostau annisgwyl.

trosglwyddodd 11 Aelod gyfartaledd o £5,513 o'u Lwfans Staffio i’w OCLF; mae'r hyblygrwydd hwn yn caniatáu i’r Aelodau ailddyrannu ac ailflaenoriaethu cyllid i gostau cyfathrebu, ymchwil polisi neu swyddfa na fyddent fel arall wedi’u gwario ar wariant staffio.

Trosglwyddodd saith Aelod gyfartaledd o £2,035 o'u OCLF i’w Lwfans Staffio i gyfrannu at gostau staffio.

Trosglwyddodd 10 Aelod gyfartaledd o £1,970 o’u OCLF i’w Grŵp at ddibenion ymchwil polisi allanol.

## Gwariant yn ôl Categori

**Tabl 5: Gwariant o'r Gronfa yn ôl Categori**

| 2021-22 | | |
|---|---|---|
| **Categori** | **Cyfanswm y Gwariant** | **% o gyfanswm y gwariant** |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | £123,014 | 14.3% |
| Cyfleusterau | £222,474 | 25.8% |
| Iechyd a diogelwch | £60 | 0.0% |
| TGCh | £101,909 | 11.8% |
| Costau Cyfreithiol | £15,743 | 1.8% |
| Rhent | £344,414 | 40% |
| Ymchwil | £5,691 | 0.6% |
| Diogelwch | £691 | 0% |
| Staffio/AD | £1,151 | 0.3% |
| Cyfleustodau | £45,830 | 5% |
| **Cyfanswm** | **£860,975** | **100%** |


| 2022-23 | | |
|---|---|---|
| **Categori** | **Cyfanswm y Gwariant** | **% o gyfanswm y gwariant** |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | £187,477 | 17% |
| Cyfleusterau | £252,800 | 22.9% |
| Iechyd a diogelwch | £64 | 0% |
| TGCh | £102,489 | 9.3% |
| Costau Cyfreithiol | £12,282 | 1.1% |
| Rhent | £443,528 | 40.2% |
| Ymchwil | £15,703 | 1.4% |
| Staffio/AD | £2,305 | 0.2% |
| Teithio | £30 | 0.0% |
| Cyfleustodau | £85,556 | 7.8% |
| **Cyfanswm** | **£1,102,235** | **100%** |

| 2023-24 | | |
|---|---|---|
| **Categori** | **Cyfanswm y Gwariant** | **% o gyfanswm y gwariant** |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | £193,301 | 17.1% |
| Cyfleusterau | £208,717 | 18.5% |
| Iechyd a diogelwch | £85 | 0.0% |
| TGCh | £106,489 | 9.4% |
| Costau Cyfreithiol | £3,030 | 0.3% |

| | | |
|---|---|---|
| Rhent | £480,688 | 42.6% |
| Ymchwil | £29,161 | 2.6% |
| Diogelwch | £384 | 0.0% |
| Cyfleustodau | £103,860 | 9.2% |
| Staffio/AD | £1,660 | 0.15% |
| **Cyfanswm** | **£1,127,375** | **100%** |

Y tri chategori gwariant mwyaf ym mhob blwyddyn ariannol yw **rhent**, **cyfleusterau** a **chyfathrebu ac ymgysylltu**.

**Siart 2: Gwariant o'r Gronfa yn ôl Categori 2023-24**




## Rhent

Yn gyffredinol, mae rhent yn cyfrif am tua 41 y cant o gyfanswm y gwariant o'r Gronfa. Cynyddodd y gyfran o gyfanswm gwariant o'r Gronfa ar rent yn 2023-24 i 43 y cant. Mae gwariant rhent yn amrywio'n sylweddol fesul Aelod, gydag o leiaf un Aelod yn dewis peidio â gweithredu swyddfa etholaeth. Mae'r ffigurau isod yn rhoi crynodeb o wariant yr Aelodau ar rent, sy'n cynnwys gwariant ar rent ac unrhyw daliadau gwasanaeth swyddfa.

### Costau Rhent: Holl Aelodau

Ar gyfartaledd mae Aelodau'n gwario tua 45 y cant o'u gwariant o'r Gronfa ar rent. Y gyfran uchaf o wariant o'r Gronfa ar rent gan Aelod yw 75 y cant. Mae gwariant rhent cyfartalog wedi bod yn cynyddu ers 2021-22, i fyny 34 y cant. Dylid nodi efallai na fydd gwariant o 2021-22 yn gynrychioliadol, gan fod y flwyddyn gyntaf mewn tymor Senedd yn flwyddyn rannol i Aelodau, sydd hefyd yn y broses o sefydlu swyddfeydd. Rhwng 2022-23 a 2023-24, cynyddodd gwariant cyfartalog ar rent 6.7 y cant.

**Tabl 6: Uchafswm Gwariant, Lleiafswm Gwariant a Gwariant Cyfartalog ar rent**

| Yr holl Aelodau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Isafswm** | **Uchafswm** | **Cyfartaledd (Cymedr)** | **Canolrif** |
| 2021-22 | £900 | £13,680 | £6,042 | £6,198 |
| 2022-23 | £2,393 | £13,680 | £7,616 | £7,800 |
| 2023-24 | £3,240 | £13,775 | £8,123 | £8,063 |
| **Aelodau Etholaethol** | | | | |
| **Blwyddyn** | **Isafswm** | **Uchafswm** | **Cyfartaledd (Cymedr)** | **Canolrif** |
| 2021-22 | £900 | £13,680 | £6,511 | £6541 miliwn |
| 2022-23 | £2,393 | £13,680 | £7,596 | £7,543 |
| 2023-24 | £4,160 | £13,775 | £8,428 | £9,128 |
| **Aelodau Rhanbarthol** | | | | |
| **Blwyddyn** | **Isafswm** | **Uchafswm** | **Cyfartaledd (Cymedr)** | **Canolrif** |
| 2021-22 | £1,123 | £9,469 | £5,027 | £5,142 |
| 2022-23 | £3,653 | £12,960 | £7,761 | £8,150 |
| 2023-24 | £3,240 | £13,680 | £8,024 | £8006 |

Mae nifer yr Aelodau sy'n talu mwy na'r gwariant rhent cyfartalog yn amrywio fesul blwyddyn:

- 2021-22: 29 Aelod
- 2022-23: 31 Aelod
- 2023-24 28 Aelod

## Costau Rhent yn ôl Rhanbarth

Gellir gweld ychydig o amrywiad mewn costau rhentu cyfartalog fesul rhanbarth.

**Tabl 7: Gwariant rhent cyfartalog fesul rhanbarth (Holl Aelodau)**

| Rhanbarth | 2021-22 | 2023-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | £4,819 | £6,346 | £7,983 |
| Gogledd Cymru | £6,663 | £7,368 | £7,984 |
| Canol De Cymru | £5,396 | £7,799 | £8,032 |
| Dwyrain De Cymru | £6,051 | £8,410 | £8,605 |
| Gorllewin De Cymru | £5,806 | £7,678 | £7,400 |

## Costau Rhent mewn ardaloedd y nodwyd bod costau uchel

Mae'r isod yn rhoi crynodeb o'r gwariant rhentu mewn ardaloedd trefol, lle tybir yn aml bod costau rhentu swyddfeydd yn uwch.

**Tabl 8: Gwariant rhent blynyddol mewn ardaloedd trefol**

| Etholaeth | Gwariant ar Rent 2021-22 | Gwariant ar Rent 2022-23 | Gwariant ar Rent 2023-24 |
|---|---|---|---|
| Gogledd Caerdydd | £2,595 | £3,548 | £3,460 |
| Canol Caerdydd | £7,557 | £12,000 | £12,000 |
| De Caerdydd a Phenarth | £9,192 | £12,000 | £12,000 |
| Gorllewin Caerdydd | £9,900 | £9,900 | £9,900 |
| Dwyrain Casnewydd | £6,541 | £10,071 | £8,304 |
| Gorllewin Casnewydd | £6,000 | £8,662 | £10,968 |
| Dwyrain Abertawe | £6,500 | £6,500 | £6,500 |
| Gorllewin Abertawe | £8,761 | £8,769 | £6,552 |
| Wrecsam | £7,125 | £7,125 | £7,500 |
| **Gwariant Cyfartalog ar Rent** | **£6,042** | **£7,616** | **£8,123** |

Mae'r mwyafrif o'r Aelodau yn yr etholaethau hyn yn talu rhent sy'n uwch na'r gwariant rhent cyfartalog gan yr holl Aelodau, ond mae'n cyrraedd uchafbwynt ar tua 52 y cant o gyfanswm lwfans y Gronfa yn 2022-23.

**Tabl 9: Gwariant rhent blynyddol mewn ardaloedd trefol fel canran o gyfanswm y gwariant a lwfans y Gronfa**

| Etholaeth | Gwariant ar rent yn 22-23 fel % o wariant Aelodau o'r Gronfa | Gwariant ar rent yn 22-23 fel % o gyfanswm Lwfans y Gronfa |
|---|---|---|
| Gogledd Caerdydd | 20% | 15% |
| Canol Caerdydd | 46% | 52% |
| De Caerdydd a Phenarth | 70% | 52% |
| Gorllewin Caerdydd | 66% | 43% |
| Dwyrain Casnewydd | 75% | 43% |
| Gorllewin Casnewydd | 49% | 37% |
| Dwyrain Abertawe | 37% | 28% |
| Gorllewin Abertawe | 55% | 38% |
| Wrecsam | 58% | 31% |

## Cyfleustodau

Mae gwariant ar gyfleustodau yn cynnwys costau nwy, trydan a dŵr. Ar y cyfan, roedd costau cyfleustodau yn cyfrif am 5.3 y cant o gyfanswm y gwariant o'r Gronfa yn 2021-22, gan godi i 7.7 y cant yn 2022-23 a 9.2 y cant yn 2023-24.

**Tabl 10: Uchafswm gwariant a gwariant cyfartalog ar gyfleustodau**

| Yr holl Aelodau | | |
|---|---|---|
| Blwyddyn | Uchafswm | Cyfartaledd (Cymedr) |
| 2021-22 | £3,879 | £975 |
| 2022-23 | £5,684 | £1820 |
| 2023-24 | £7,160 | £2,077 |

Ar gyfartaledd, gwariodd Aelodau 6 y cant o'u gwariant o'r Gronfa ar gyfleustodau yn 2021-22, gan godi i 9 y cant yn 2022-23 ac 11 y cant yn 2023-24.

## Cyfleusterau

Mae cyfleusterau'n cwmpasu'r holl gostau gweithredu swyddfa safonol o gynnal a chadw a glanhau swyddfeydd, i lungopïo a phostio (lle nad oes diben cyfathrebu ac ymgysylltu clir), offer swyddfa nad yw'n ymwneud â TGCh a chasglu gwastraff. Yn 2021-22 roedd costau cyfleusterau yn cyfrif am 26 y cant o gyfanswm y gwariant o'r Gronfa, gostyngodd hyn i 23 y cant yn 2022-23 ac 19 y cant yn 2023-24.

Ar gyfartaledd, gwariodd yr Aelodau tua 18 y cant o gyfanswm eu gwariant o'r Gronfa ar gostau cyfleusterau yn 2023-24, gyda'r gyfran uchaf yn 52 y cant.

Y llinellau gwariant mwyaf yn y categori hwn yw post, offer swyddfa, trethi busnes a deunydd ysgrifennu.

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu yn cwmpasu'r holl wariant lle mae cysylltiad clir â gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu. Mae'r categori, felly, yn cynnwys llinellau gwariant sy'n ymwneud â hysbysebu, rhentu ystafell ar gyfer cymhorthfa, llungopïo, postio, ffotograffiaeth, cylchlythyrau, cardiau busnes, papurau pennawd, gwefannau a rhai mathau o offer, e.e. trybeddau, camerâu a meicroffonau.

Roedd cyfathrebu ac ymgysylltu yn cyfrif am 14 y cant o gyfanswm y gwariant o'r Gronfa yn 2021-22, ac 17 y cant yn 2022-23 a 2023-24. Ar gyfartaledd, gwariodd yr Aelodau tua 16 y cant o gyfanswm eu gwariant o'r Gronfa ar gyfathrebu ac ymgysylltu yn 2023-24, a'r gyfran uchaf

oedd 53 y cant. Nid yw gwariant cyfartalog yn wahanol iawn rhwng Aelodau rhanbarthol ac etholaethol.

**Tabl 11: Uchafswm gwariant a gwariant cyfartalog ar gyfathrebu ac ymgysylltu**

| **Yr holl Aelodau** | | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Uchafswm** | **Cyfartaledd (Cymedr)** | **Canolrif** |
| 2021-22 | £9,063 | £2,050 | £1,633 |
| 2022-23 | £14,630 | £3,125 | £2,155 |
| 2023-24 | £11,788 | £3222 | £2,137 |
| **Aelodau Etholaethol** | | | |
| **Blwyddyn** | **Uchafswm** | **Cyfartaledd (Cymedr)** | **Canolrif** |
| 2021-22 | £9,063 | £2,125 | £1,515 |
| 2022-23 | £14,630 | £3,223 | £2,155 |
| 2023-24 | £11,788 | £3,259 | £2,244 |
| **Aelodau Rhanbarthol** | | | |
| **Blwyddyn** | **Uchafswm** | **Cyfartaledd (Cymedr)** | **Canolrif** |
| 2021-22 | £5,535 | £1,900 | £1,892 |
| 2022-23 | £11,651 | £2,928 | £2,186 |
| 2023-24 | £10,871 | £2,963 | £1881 |

O fewn y categori cyfathrebu ac ymgysylltu, y llinell wariant fwyaf yw hysbysebu, ac yna llungopïo ac yna postio.

**Tabl 12: Gwariant Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn ôl llinell wariant (Cyfanswm y gwariant, holl Aelodau)**

| Llinell Wariant | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| Cardiau busnes | £176 | £140 | £72 |
| Stondin Digwyddiad | £11 | £623 | £1594 |
| Ffioedd Aelodaeth | £20 | £0 | £0 |
| Newyddlenni | £5,565 | £7049 | £905 |
| Offer Swyddfa - Prynu - TG | £525 | £2137 | £0 |
| Offer Swyddfa - Prynu - Arall | £3,533 | £4262 | £636 |
| Cynnal a Chadw Swyddfeydd | £1,471 | £0 | £0 |
| Hysbysebu Arall | £67,661 | £89,846 | £116,204 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llungopïo | £21,075 | £40,163 | £29,088 |
| Ffotograffiaeth | £1,178 | £948 | £2,687 |
| Postio | £9,359 | £22,585 | £19,920 |
| Tanysgrifiadau | £0 | £25 | £20 |
| Hysbysebu Cymhorthfa | £2,196 | £1,367 | £166 |
| Rhent Ystafell Cymhorthfa | £3,424 | £6,766 | £7,659 |
| Tocynnau | £74 | £2400 | £2,202 |
| Cyfieithu | £276 | £665 | £1,023 |
| Gwefan | £6,472 | £6,055 | £10,542 |
| Ffioedd Cynhadledd | £0 | £0 | £518 |
| Lluniaeth | £0 | £0 | £55 |

**Tabl 13: Gwariant Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn ôl llinell wariant fel cyfran o gyfanswm y gwariant ar gyfathrebu ac ymgysylltu (Holl Aelodau)**

| Llinell Wariant | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| Cardiau busnes | 0.1% | 0.1% | 0.0% |
| Stondin Digwyddiad | 0.0% | 0.3% | 0.8% |
| Ffioedd Aelodaeth | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Newyddlenni | 4.5% | 3.8% | 0.5% |
| Offer Swyddfa - Prynu - TG | 0.4% | 1.1% | 0.0% |
| Offer Swyddfa - Prynu - Arall | 2.9% | 2.3% | 0.3% |
| Cynnal a Chadw Swyddfeydd | 1.2% | 0% | 0.0% |
| Hysbysebu Arall | 55.0% | 47.9% | 60.1% |
| Llungopïo | 17.1 | 21.4% | 15.0% |
| Ffotograffiaeth | 1.0% | 0.5% | 1.4% |
| Postio | 7.6% | 12% | 10.3 |
| Tanysgrifiadau | 0% | 0% | 0.0% |
| Hysbysebu Cymhorthfa | 1.8% | 0.7% | 0.1% |
| Rhent Ystafell Cymhorthfa | 2.8% | 3.6% | 4.0% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tocynnau | 0.1% | 1.3% | 1.1% |
| Cyfieithu | 0.2% | 0.4% | 0.5% |
| Gwefan | 5.3% | 3.2% | 5.5% |
| Ffioedd Cynhadledd | 0.0% | 0.0% | 0.3% |
| Lluniaeth | 0.0% | 0.0% | 0.0% |

Gwnaed dadansoddiad o linellau gwariant cylchlythyrau, llungopïo a phostio yn arbennig gan fod y rhain yn fwyaf tebygol o fod yn gysylltiedig â ffurfiau mwy traddodiadol o gyfathrebu fel taflenni a chylchlythyrau. Mae cyfanswm y gwariant yn y meysydd hyn yn 29 y cant o'r gwariant ar gyfathrebu ac ymgysylltu yn 2021-22, 37 y cant yn 2022-23 a 26 y cant yn 2023-24.

**Tabl 14: Gwariant cylchlythyrau a phostio a llungopïo ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu 2021-22**

| Categori | Cyfanswm y Gwariant | Uchafswm Gwariant | Gwariant Cyfartalog |
|---|---|---|---|
| Newyddlenni | £5,565 | £2,520 | £1,113 |
| Llungopïo | £21,0754 | £1,573 | £114 |
| Postio | £9,359 | £5,040 | £1,560 |

**Tabl 15: Gwariant cylchlythyrau a phostio a llungopïo ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu 2022-23**

| Categori | Cyfanswm y Gwariant | Uchafswm Gwariant | Gwariant Cyfartalog |
|---|---|---|---|
| Newyddlenni | £7,049 | £2,375 | £470 |
| Llungopïo | £40,163 | £3,878 | £199 |
| Postio | £22,585 | £2,640 | £869 |

**Tabl 16: Gwariant cylchlythyrau a phostio a llungopïo ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu 2023-24**

| Categori | Cyfanswm y Gwariant | Uchafswm Gwariant | Gwariant Cyfartalog |
|---|---|---|---|
| Newyddlenni | £905 | £905 | £905 |
| Llungopïo | £29,088 | £4,410 | £198 |
| Postio | £19,920 | £4,356 | £866 |

## TGCh

Mae costau TGCh yn cynnwys yr holl wariant sy'n ymwneud â TGCh a thelathrebu, ac felly'n cynnwys gwariant ar offer TGCh, lesoedd llungopiwyr ac argraffwyr a ffonau symudol a swyddfa. Yn 2021-22 roedd costau TGCh yn cyfrif am 11.8 y cant o gyfanswm y gwariant o'r Gronfa, 9.3 y cant yn 2022-23 a 9.4 y cant yn 2023-24. Ar gyfartaledd, gwariodd yr Aelodau 11 y cant o'u gwariant o'r Gronfa ar TGCh yn 2023-24.

## Costau Cyfreithiol

Mae costau cyfreithiol yn llinell wariant benodol o fewn y data ffynhonnell. Mae'n cynnwys costau sy'n ymwneud â phrisio, cyngor les swyddfa a chyngor ar gynllunio. At ei gilydd yn 2021-22, roedd costau cyfreithiol yn cyfrif am 1.8 y cant o gyfanswm gwariant o'r Gronfa, 1.1 y cant yn 2022-23 a 0.3 y cant yn 2023-24. Ar gyfartaledd, gwariodd Aelodau unigol a hawliodd am gostau cyfreithiol £524.76 ar gostau cyfreithiol yn 2021-22, £409.40 yn 2022-23 a £101 yn 2023-24.

Mae cryn dipyn o wariant costau cyfreithiol yn cael ei gynnwys yn y lwfans cychwyn swyddfa. Mae dadansoddiad llawn o'r lwfans cychwyn wedi'i gynnwys yn Adran 3, fodd bynnag, y gwariant cyffredinol ar gostau cyfreithiol o dan y lwfans cychwyn swyddfa oedd £16,393 yn 2021-22, a £2,047 yn 2022-23. Mae hyn yn golygu mai cyfanswm y gwariant ar gostau cyfreithiol oedd £28,675.08 yn 2021-22.

## Ymchwil

Mae costau ymchwil yn cynnwys unrhyw waith ymchwil a gomisiynir yn allanol a thanysgrifiadau i sefydliadau sy'n cynhyrchu adroddiadau polisi ac ymchwil rheolaidd fel Sefydliad Bevan a'r Sefydliad Materion Cymreig.

Yn 2021-22, roedd ymchwil yn cyfrif am lai nag 1 y cant o gyfanswm gwariant o'r Gronfa. Cododd hyn i 1.4 y cant yn 2022-23. Yn 2021-22, nid oedd unrhyw wariant ar ymchwil a gomisiynwyd. Gwariodd Aelodau unigol gyfanswm o £9,720 ar ymchwil a gomisiynwyd a chymorth cyfathrebu yn 2022-23 a £15,000 yn 2023-24. Yn 2023-24, trosglwyddodd 10 Aelod gyfartaledd o £1,970 o'u OCLF i'w Grŵp at ddibenion ymchwil polisi allanol.

# 3. Dadansoddiad: Gwariant Lwfans Cychwyn Swyddfa ac Adnewyddu

Mae'r Penderfyniad yn darparu ar gyfer lwfans cychwyn swyddfa ac adnewyddu swyddfa. Mae’r adran hon yn cynnwys dadansoddiad o wariant o dan bob un o’r lwfansau hyn yn 2021-22 a 2022-23.

## Lwfans Cychwyn Swyddfa

Fel y byddid yn ei ddisgwyl, mae gwariant o dan y lwfans cychwyn swyddfa yn sylweddol uwch yn 2021-22, yn sgil ethol Aelodau newydd, y byddai llawer ohonynt yn sefydlu swyddfeydd am y tro cyntaf.

**Tabl 18: Gwariant Cychwyn Swyddfa yn ôl Categori**

| Categori | 2021-22 | | 2022-23 | |
|---|---|---|---|---|
| | Swm (£) | Canran o gyfanswm y gwariant | Swm (£) | Canran o gyfanswm y gwariant |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | £4,752.50 | 7.1% | £0.00 | 0% |
| Cyfleusterau | £43,059.05 | 64% | £12,957.57 | 79.6% |
| TGCh | £449.90 | 0.7% | £1,266.00 | 7.8% |
| Costau Cyfreithiol | £16,393.12 | 24.4% | £2,047.20 | 12.6% |
| Rhent (Bond) | £2,616.67 | 3.9% | £0.00 | 0% |
| **Cyfanswm** | **£67,271.24** | | **£16,270.77** | |

Gwariant cyfartalog yr Aelodau ar **gostau cyfreithiol** yn 2021-22 oedd £1170.94, yr uchafswm oedd £2,340.

**Tabl 19: Gwariant Cyfartalog ac Uchafswm Gwariant ar Gychwyn Swyddfa**

| Blwyddyn | Cyfartaledd | Canolrif | Uchafswm |
|---|---|---|---|
| **2021-22** | £3,737 | £4354 | £5350 |
| **2022-23** | £1808 | £1033 | £4134 |

## Lwfans Adnewyddu Swyddfa

Mae symiau bach iawn o arian wedi'u gwario o dan y lwfans adnewyddu swyddfa. Yn 2021-22, gwariwyd cyfanswm o £2492, ac yn 2022-23 gwariwyd £199.

# 4. Casgliad

Mae dadansoddiad o ddata gwariant o'r Gronfa yn cynnig nifer o fewnwelediadau defnyddiol i lywio'r adolygiad thematig ffyrdd o weithio:

- Mae gwariant o'r Gronfa gan Aelodau yn amrywio'n sylweddol, gan ddangos ymhellach pa mor bwysyg yw'r hyblygrwydd sy'n galluogi Aelodau i benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau etholedig.

- Nid yw'r data'n awgrymu unrhyw broblemau penodol o ran digonolrwydd y Gronfa, er y dylid ystyried hyn ochr yn ochr â thystiolaeth ehangach i sicrhau dealltwriaeth lawn o sut mae'r Gronfa yn gweithredu ar hyn o bryd, a sut y gallai fod angen iddi weithredu mewn Senedd ddiwygiedig. Yn 2023-24 roedd 18 y cant o Aelodau yn gwario 90+ y cant o gyfanswm lwfans y Gronfa.

- Fel y gellid ei ddisgwyl, y maes gwariant mwyaf o'r Gronfa yw rhent. Mae Aelodau'n gwario 45 y cant ar gyfartaledd o'u gwariant o'r Gronfa ar rent, ond mae hyn yn amrywio o 10 y cant i 75 y cant ac mae o leiaf un Aelod wedi dewis peidio â chael swyddfa etholaeth. Mae gwariant ar rent yn cynyddu ar gyfartaledd; gwelwyd cynnydd o 6.7 y cant rhwng 2023-23 a 2023-24.

- Y meysydd mwyaf nesaf o ran gwariant cyffredinol o'r Gronfa yw cyfleusterau (19 y cant) a chyfathrebu ac ymgysylltu (17 y cant).

- Ar draws categorïau gwariant, nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol mewn patrymau gwariant rhwng Aelodau rhanbarthol ac etholaethol.

- Mae gwariant cyfleustodau yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, i fyny 21 y cant ers 2022-23.

- Mae gwariant ar gyfathrebu ac ymgysylltu hefyd yn amrywio. Ar gyfartaledd, gwariodd Aelodau 17 y cant o'u gwariant o'r Gronfa ar gyfathrebu ac ymgysylltu yn 2023-24, ond 53 y cant oedd y gyfran fwyaf. Y maes gwariant cyfathrebu ac ymgysylltu mwyaf yw hysbysebu (60 y cant yn 2023-24), ac yna llungopïo. Roedd gwariant yn ymwneud â dulliau mwy traddodiadol o gyfathrebu – cylchlythyrau, llungopïo a phostio – yn cyfrif am 26 y cant o'r gwariant ar gyfathrebu ac ymgysylltu yn 2023-24.

- Mae costau cyfreithiol yn gyfran fach iawn o wariant o'r Gronfa o ddydd i ddydd, mae costau cyfreithiol hefyd yn cael eu talu drwy'r lwfans cychwyn swyddfa, sy'n cyfrif am bron i chwarter y gwariant cychwyn swyddfa yn 2021-22.

- Arweinwyr grŵp sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r gwariant ar ymchwil a gomisiynwyd, er bod gwariant gan Aelodau unigol ar ymchwil a gomisiynwyd wedi cynyddu yn 2023-24.

# 5. Atodiad A: Categorïau Gwariant

| Categori | Disgrifiad o'r Gwariant |
|---|---|
| Rhent | • Rhent y swyddfa<br>• Taliadau Gwasanaeth Rhent Swyddfa |
| Cyfleusterau<br>*I gynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â rhedeg swyddfa ac a fyddai fel arfer yn dod o dan gylch gorchwyl adran cyfleusterau.* | • Llungopïo<br>• Trwydded Deledu Swyddfa<br>• Offer Swyddfa (ar wahân i TGCh)<br>• Offer Swyddfa – ar les (ar wahân i TGCh)<br>• Postio<br>• Deunydd Ysgrifennu'r Swyddfa<br>• Glanhau Swyddfa / Deunyddiau Glanhau<br>• Ardrethi Busnes Swyddfa<br>• Casglu Gwastraff / Ailgylchu<br>• Saer Cloeon<br>• Cynnal a Chadw Swyddfeydd<br>• Parcio |
| TGCh<br>*I gynnwys yr holl gostau sy'n ymwneud â'r cyfarpar digidol sydd ei angen i redeg swyddfa a chyflogi staff. Mae hyn yn cynnwys gliniaduron, ffonau, argraffwyr ac ati.* | • Rhaglen feddalwedd<br>• Ffôn Swyddfa / Symudol<br>• Offer Swyddfa – TGCh<br>• Les a chynnal a chadw llungopïwr |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>*I gynnwys yr holl gostau sy'n ymwneud ag ymgysylltu ag etholwyr sy'n cynnwys costau llogi ystafell y gymhorthfa, cynhyrchu cylchlythyr, dosbarthu adroddiadau blynyddol ac ati.* | • Llungopïo (lle mae'n amlwg ar weithgaredd cyfathrebu fel penawdau llythyrau, cardiau busnes, cardiau galw, deunyddiau hyrwyddo)<br>• Hysbysebu Arall<br>• Rhent Ystafell Cymhorthfa<br>• Offer (lle mae'n amlwg bod ei angen ar gyfer gweithgaredd cyfathrebu fel camera, meicroffon llabed ac ati)<br>• Ffotograffiaeth<br>• Newyddlenni<br>• Cardiau busnes<br>• Postio (lle caiff ei ddefnyddio'n glir ar gyfer gweithgarwch cyfathrebu e.e. cyflwyno adroddiad blynyddol)<br>• Gwefan<br>• Cyfieithu |

| | |
|---|---|
| | • Cynnal a chadw swyddfa (pan yn ymwneud ag arwyddion swyddfa) |
| Costau Cyfreithiol | • Costau Cyfreithiol Swyddfa |
| Ymchwil<br>*I gynnwys gwariant sy'n amlwg yn gysylltiedig ag ymchwil, yn cwmpasu gwariant perthnasol o'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu a thanysgrifiadau megis y Sefydliad Materion Cymreig, Sefydliad Bevan ac ati.* | |
| Cyfleustodau | • Nwy<br>• Trydan<br>• Dŵr |
| Diogelwch | • Diogelwch Swyddfa |
| Staffio/AD | • Gwasanaethau Gweinyddol<br>• Hysbysebu ar gyfer Recriwtio |